

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 41 Hydref 14, 2021 50c.

O Hyfryd Ddydd

Oedfa Sefydlu'r Parchedig Chris Bolton yn weinidog ar eglwysi Annibynnol Gofalaeth Bröydd Teifi

Bu'r Parchedig Chris Bolton yn gwasanaethu ein Harglwydd gyda'r Eglwys yng Nghymru, yn ne Ceredigion am 36 mlynedd, cyn ymddeol a bwrw ati i chwilio am swydd ran amser. Fe'i penodwyd yn weinidog rhan amser gydag eglwysi Brynteg; Gwyddgrug; Capel Nonni, Llanllwni a'r Tabernacl, Pencader, ym mis Mawrth 2020 ond yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r oedfa sefydlu a drefnwyd bryd hynny oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Serch hynny, aildrefnwyd y digwyddiad hollbwysig hwn ac fe'i cynhaliwyd ddydd Sadwrn, 18 Medi. Braf oedd gweld capel y Tabernacl, Pencader yn gyfforddus lawn er mwyn sefydlu'r Parchedig Chris Bolton yn weinidog ar eglwysi Annibynnol Gofalaeth Bröydd Teifi. Dyma oedfa hirddisgwyliedig, ac er na fyddai'r un ohonom wedi rhag-

weld y byddai deunaw mis o aros ar ei chyfer, dyma oedfa i ddynodi cyfnod newydd yn hanes yr ofalaeth arbennig hon.

Estynnwyd gair o groeso gan y llywydd, sef Dr Hefin Jones, Caerdydd, un a fagwyd ym Mhencader, a diolch iddo am ei eiriau pwrpasol a didwyll ac am osod naws gartrefol i'r gwasanaeth o'r cychwyn. Dymunodd yn dda i'r ofalaeth ar ei chyfnod newydd gan nodi cymaint yw ei ddyled yntau i'r capel a'r ardal.

Cyfranwyr

Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan aelodau'r ofalaeth; a thrwy gyfrwng darlleniadau, gweddïau ac emynau, fe'n harweiniwyd i fyfyrto ar bwysigrwydd ac arwyddocâd yr oedfa arbennig hon. Fe'n galwyd i addoli gan Richard Davies, Capel Nonni, cafwyd darlleniad o'r ysgrhythur gan Ffred Ffransis, Tabernacl ac fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan Gillian Jones, Brynteg.

Cyflwynwyd yr emynau gan Rhiannon Laughlin, Tabernacl; Verona Evans a Deian Griffiths, Gwyddgrug; Valerie Jones, Capel Nonni ac Yvonne Davies, Brynteg.



Dathlu 150: 'Undod yn lle Annibendod: Dr Rees [Ebeneser] a Sefydlu Undeb yr Annibynwyr'

Erbyn y gwêl y geiriau hyn olau dydd bydd yr Athro Prys Morgan wedi traddodi'r ddarlith uchod fydd yn cychwyn ar gyfres o ddigwyddiadau fydd dros y misoedd hyd at Undeb Caerfyrddin, 7-9 Gorffennaf, 2022 yn nodi sefydlu'r Undeb, 12 Hydref 1871 ac yn dathlu'n ddiolchgar ei fywyd a'i waith dros y ganrif a hanner diwethaf.

Bydd natur yr 'annibendod' a ystyriwyd yn fygythiad i Annibynwyr Cymru gan un o'u gweinidogion amlycaf, wedi ei ddadlennu ac nid ar chwarae bach y bydd osgoi barn un a roes ar gof a chadw (ar y cyd â'i gyfaill, John Thomas), *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*.

Ar ryw olwg, yr oedd gwawr diwrnod o haf yn torri ar eglwysi anghydfurfiol Cymru wrth dynnu tuag at chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chynlluniau mawr ar droed i godi mwy o gapeli a chapeli mwy eu maint o lawer hefyd, ar gyfer cynulleidfaoedd nad oedd i bob ymddangosiad unrhyw bendraw i'w twf a'u cynnydd. Ond, mae'n amlwg nad diwrnod digwmwl mohono chwaith i'r gweledydd craff ac effro.

Wrth i'r cyfansoddiad syml a fabwysiadwyd noson sefydlu'r Undeb sôn am 'feithrin cydnabyddiaeth ... rhoddi cyfle i ymgynghori ... ac annog cydweithrediad ...' ceir ynddo awgrym pendant mai'r pennaf bygythiad i Annibynwyr Cymru mewn dydd o nerth a chryfder oedd yr annibyniaeth anniben honno sy'n ynysig, falch a chystadleuol ei hanian.

Cyn rhuthro i'w chondemnio cofiwn fod yr annibyniaeth fygythiol honno'n ffynnu mewn dydd o wendid a breuder yn ogystal, fel ein dyddiau ni ond bod gennym ninnau, diolch i Thomas Rees a'i debyg, Undeb i'n cynorthwyo i'w hymlid ymaith.

Dyfrig Rees

Swynwyd y gynulleidfa gan gyfraniad hudolus plant ysgol Sul y Tabernacl a diolch i'w hathrawon am eu dysgu mor raenus. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Nancy Jones a Fioled Jones, Tabernacl.

parhad ar dudalen 2

O Hyfryd Ddydd – parhad

Y sefydlu

Y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr oedd yng ngofal y sefydlu a diolch iddo am ei barodurwydd i ymgymryd â'r gorchwyl hwn mewn modd urddasol a diffuant. Dymunodd yn dda i'r eglwysi wrth iddynt gamu i'r dyfodol ac ailgydio yn eu gweithgareddau wrth addasu i drefn newydd ôl-Covid. Nododd bod Covid-19 a'r cyfyngiadau presennol wedi ein hamddifadu o ganolbwynt y gwasanaeth, sef, yr ysgwyd llaw wrth orffen y cyflwyniadau a'r croesawu swyddogol; i oresgyn hyn, anogodd y gynulleidfa i ddatgan eu croeso i'r Gweinidog newydd drwy edrych yn serchog ar ein gilydd. Offrymwyd Gweddi'r Sefydlu gan Dr Hefin Jones.

Hanes yr alwad

Cyflwynwyd hanes yr alwad ar ran yr ofalaeth gan Siân Thomas. Yn ei hanerchiad, nododd sut y daeth diwedd cyfnod i ran yr ofalaeth yn sgil ymddeoliad y Parchedig Ddr Rheinallt Davies ym mis Hydref 2018, a hynny wedi cyfnod o chwarter canrif fel eu gweinidog. Cam naturiol felly, oedd meddwl am y trywydd nesaf ac aethpwyd ati i roi hysbyseb yn *Y Tyst* er mwyn dod o hyd i weinidog amser llawn neu ran amser. Fel gofalaeth o bum eglwys ar y pryd, ond sydd bellach yn bedair, trefnwyd cyfarfodydd ar y cyd, ynghyd â chyrrdau eglwys ymhob capel er mwyn paratoi gwybodaeth ynghylch telerau'r swydd. Anfonwyd galwad i'r Parchedig Chris Bolton, a braf oedd clywed yr atebwyd yr alwad honno. Dangosodd ddiddordeb yng ngweithgarwch yr eglwysi gan gynnwys pwysigrwydd meithrin y plant yn yr ysgolion Sul ynghyd â bugeilio ac ymweld â'r rhai sy'n methu bod yn bresennol oblegid afiechyd neu amgylchiadau personol. Teg fyddai dweud na ellid dirnad cymaint fyddai arwyddocâd bugeilio ddechrau mis Mawrth y llynedd.

Yn ôl at y gwreiddiau

Cam naturiol oedd cael ei dderbyn yn aelod o fewn yr ofalaeth, a'i ddymuniad personol oedd cael ei dderbyn yn aelod yn y Tabernacl oherwydd lleoliad ymarferol y capel o ran pellter i'w gartref yn Llandysul, lle mae'n byw gyda'i briod Eirian a braf yw gallu estyn croeso i'r ddau i'r ofalaeth. Derbyniwyd

y Parchedig Chris Bolton yn aelod gan ddiagoniaid y Tabernacl ar ddydd Sul yr 2 Chwefror 2020. Dyma groesawu ficer gyda'r Eglwys yng Nghymru fel aelod ac fel gweinidog gyda'r Annibynwyr; ond dyma wr sydd â'i wreiddiau yn ddwfn yn yr achos Annibynol, yng Nghapel Als, Llanelli, ac i ddyfynnu o'i enau ei hun, 'Rwy'n teimlo fy mod wedi dod gartref.' Diolch i'w ragflaenydd, y Parchedig Ddr Rheinallt Davies, am baratoi'r ffordd drwy dynnu chwe eglwys at ei gilydd yn wreiddiol a ffurfio gofalaeth lewyrchus ac eang.

Yr ofalaeth

Dyma ofalaeth sydd wedi hen arfer â chydweithio ar lu o achlysuron pwysig yn nghalendr y flwyddyn Gristnogol a chefnogi oedfaon ar y Sul, ac yn ddi-os, profwyd hynny yn fwy nag erioed yn ddiweddar a mawr yw'r diolch i aelodau a swyddogion ein gofalaeth am eu cymorth a'u presenoldeb selog wrth baratoi'r ffordd ar gyfer dewis gweinidog newydd. Gosodwyd seiliau cedyrn yr ofalaeth drwy ymroddiad a dyfalbarhad y rhai fu'n arwain ar hyd y blynyddoedd, a diolch iddynt am eu gwaith teyrngar a diflino. Hwyrach ein bod wedi torri cŵys newydd wrth ei sefydlu'n weinidog arnom ond cofiwn hefyd ein bod yn parhau i ddilyn y gŵys a dorwyd gan ein rhagflaenwyr adeg sefydlu'r achos Annibynol yn yr ardal ym 1650.

Bu'r oedfa'n gyfle i groesawu wyneb cyfarwydd arall yn ôl i'r pulpud, sef y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor wrth iddo draddodi pregeth rymus a diolch iddo am ein hatgoffa o ystyr a phwrpas eglwys a'r ffaith nad oes angen tyrfa niferus er mwyn i eglwys fodoli, yr un yw'r ystyr boed dau yn unig yn bresennol, a boed i ni gofio hynny fwyfwy i'r dyfodol. Diolch i'r gynulleidfa am eu presenoldeb ac hefyd i deulu a ffrindiau ein gweinidog am ymuno â ni i gofnodi'r diwrnod arbennig hwn. Daeth yr oedfa fendithiol

i'w therfyn yn sain gorfoleddus yr emyn dôn 'Sagina' a geiriau pwerus cyfieithiad E. H. Griffiths o emyn Charles Wesley,

Dim damnedigaeth ofnaf nawr
cans Crist i mi yw'r cwbl mwy:
rwy'n byw yng Nghrist, fy Mrenin
mawr,
a'm gwisg, cyfiawnder dwyfol glwy';
I'r orsedd af a hawlio'n hy,
drwy haeddiant Crist, y goron fry.

Dymunaf hir oes i Ofalaeth Bröydd Teifi gan fod pennod nesaf ei hanes eisoes wedi dechrau a mawr yw'r disgwyl at ddyfodol llewyrchus o ledaenu neges yr Efengyl, a hynny yng ngofal ein cennad newydd, y Parchedig Chris Bolton.

Siân Thomas
Ysgrifennydd yr ofalaeth

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Cyrsiau'r Hydref

Defnyddio'r dechnoleg fodern yn ein haddoliad

7 o'r gloch, nos Fawrth 19 Hydref

RHODRI DARCY, Swyddog Hyrwyddo
a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gweinidogaethau ym mywyd yr eglwys

7 o'r gloch, nos Fawrth 26 Hydref - Sacrament Bedydd

7 o'r gloch, nos Fawrth 2 Tachwedd - Sacrament Swper yr Arglwydd

7 o'r gloch, nos Fawrth 9 Tachwedd - Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau ALED JONES, Cyfarwyddwr a Chydllynydd Hyfforddi'r Coleg

Darllen, deall a dehongli Gair Duw heddiw Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni

7 o'r gloch, nos Lun 8 Tachwedd - Yr Her Amgylcheddol

HEFIN JONES, Ysgol y Biowyddorau,
Prifysgol Caerdydd

7 o'r gloch, nos Lun 15 Tachwedd - Testament Newydd y Beibl CATRIN HAF WILLIAMS, Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, PCYDSS

7 o'r gloch, nos Lun 22 Tachwedd - Y Beibl Hebraeg JOHN OWAIN AB IFOR JONES, Eglwys Unedig Bute, Eglwys yr Alban


Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru

Dathlu cyhoeddi cyfrol bwysig ar hanes Cristnogaeth yng Nghymru

Nos Iau, 30 Medi, yn festri Bethel, Aberystwyth, cafwyd cyfle i ddathlu cyhoeddi cyfrol ddiweddaraf yr Athro D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales*, cyfrol 2. Astudiaeth o hanes Cristnogaeth yng Nghymru rhwng 1588, blwyddyn cyhoeddi Beibl William Morgan, a 1900 yw *Theologia Cambrensis*. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf, sy'n mapio'r cyfnod rhwng y Diwygiad Protestannaidd a'r Diwygiad Efengylaidd, yn 2018. Is-deitl y gyfrol newydd yw 'The Long Nineteenth Century: 1760 to 1900', ac mae'n ymdrin â ffigyrau pwysig fel Christmas Evans, Joseph Harris ('Gomer') a Robert Ellis ('Cynddelw') ymhlith y Bedyddwyr, Methodistiaid fel Williams Pantycelyn, Thomas Charles o'r Bala, Lewis Edwards a'i fab, Thomas Charles Edwards, yn ogystal ag Annibynwyr, Anglicaniaid a deiliaid y traddodiad Undodaidd. Mae hefyd yn crybwyll y dystiolaeth Gatholig Rufeinig yng Nghymru.



Yr Athro Frances Knight, y Parch Ddr D. Densil Morgan a'r Parch Judith Morris

Cafwyd digwyddiad tebyg yn y Tabernacl, Caerdydd, nos Fercher, 15 Medi, dan lywyddiaeth y Parch Denzil John, a'r Athro E. Wyn James yn annerch. Y Parch Judith Morris a lywyddodd y cyfarfod ym Methel, gyda'r Athro Frances Knight yn cymeradwyo'r gyfrol. Os yw E. Wyn James yn adnabyddus i ddarllenwyr *Cenn@d*, *Y Tyst*, a ffyddloniaid 'y Pethe' ymhobman, athro Hanes Cristnogaeth ym Mhrifysgol Nottingham yw Frances Knight. Mae'n un o'r prif arbenigwyr ar hanes crefydd Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn llywydd yr Ecclesiastical History Society. Mae hi'n byw yn ardal Aberaeron ac yn dysgu Cymraeg.

Cafwyd dau gyfarfod hapus a braf, gyda'r ddwy gynulleidfa'n mwynhau'r cyfle i gwrdd â chyfeillion wyneb yn wyneb gan wybod bod rheoliadau Covid yn cael

eu cadw a'u parchu. Yn ogystal â diolch i'r siaradwyr ac i gyfeillion y Tabernacl a Bethel am agor eu drysau, cafodd yr awdur gyfle i gyflwyno ychydig o gefndir prosiect *Theologia Cambrensis* a chyfeirio at y nawdd ariannol haelionus a gafwyd gan Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant. Soniodd hefyd am bwysigrwydd deall ein gorffennol nid yn unig er mwyn gwerthfawrogi cyfoeth ein hetifeddiaeth a mawrygu ein tras, ond hefyd er mwyn cymhwyso egwyddorion yr oes aur at heriau'r byd cyfoes. Roedd yr awyrgylch yn y ddau gyfarfod yn wirioneddol gynnes.

Cyhoeddwyd *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, Volume 2, The Long Nineteenth Century, 1760-1900*, gan Wasg Prifysgol Cymru, a'i bris yw £24.99.

Xplore Goes to Church! – gwyddoniaeth yn ailddechrau'r ysgol Sul yn Wrecsam

Ar ôl clywed am y prosiect 'Xplore goes to church' mewn cyfarfod o Gristnogion Ynghyd yn Wrecsam, roeddwn yn gwybod yn syth y byddai plant Capel y Groes/Ebeneser yn ei fwynhau. Eglwys St Marks, Parc Caia, ddatblygodd y prosiect gydag Xplore, ac roeddwn i'n teimlo y byddai'n gyfle gwyh i geisio dechrau'r ysgol Sul unwaith eto ar ôl cyfnod mor hir yn gwneud sesiynau rhithiol!



Pwrpas y prosiect ydi galluogi plant i ddysgu rhywbeth am y Beibl/ Duw neu'r eglwys drwy weld a bod yn rhan o arbrofion gwyddonol. Mae Xplore!, gydag Elaine o Eglwys St Marks, wedi datblygu nifer fach o sesiynau sy'n edrych ar themâu gwahanol a rŵan yn gobeithio creu mwy gydag eglwysi eraill. Oherwydd llwyddiant y prosiect maent wedi ennill gwobr, ac mae cyllid bellach i tua deg o eglwysi yng nngogledd Cymru allu gwneud yr un peth! Mae'r cyllid yn cynnwys tri sesiwn a thrip i Xplore! ei hun yn Wrecsam.

Yn ystod ein sesiwn cyntaf yng Nghapel y Groes, fe fuon ni'n dysgu am y Drindod. I ddechrau, fe wnaeth y plant fwynhau gweld fideo oedd yn esbonio i ni beth

ydi'r Drindod, mai un Duw sydd yna ond ei fod ar dair ffurf – Duw y Tad, Duw y Mab (Iesu) a Duw yr Ysbryd Glân. Yna cawsom nifer o sialensau ac arbrofion oedd yn cadarnhau beth roedden ni wedi'i ddysgu a chyflwyno syniadau newydd.

Mae'n amser pryderus i nifer o eglwysi a chapeli wrth i reolau lacio a digwyddiadau'r capel yn cael ailddechrau unwaith eto. Lle 'dan ni'n dechrau? Mae nifer yn bryderus efallai ein bod wedi colli cysylltiad â phlant a theuluoedd y capel dros y cyfnod clo, a heb fod yn siŵr a ddôn nhw'n nôl drwy ddrysau'r capel o gwbl. Doedden ni ddim yn siŵr faint fuasai'n mynychu'r sesiwn yma chwaith, a chawsom syrpréis neis ar y diwrnod pan ddaeth chwech i'r sesiwn! Nifer saff oherwydd y cyfyngiadau ac yn berffaith ar gyfer natur y sesiwn. Mae'n rhaid dechrau yn rhywle o hyd, ac mae hon yn un enghraifft sy'n dangos fod yna le o hyd i ysgolion Sul yn ein capeli, er efallai mewn ffurf wahanol ac er bod lot wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf. Mae plant yn parhau i fod yn bwysig iawn yn ein heglwysi a'n capeli, ac mae'r prosiect yma wedi ein helpu ni yng Nghapel y Groes i ddechrau sesiynau wyneb yn wyneb efo'r plant eto drwy eu galluogi i ddysgu rhywbeth am Gristnogaeth mewn ffordd wahanol a hwyliog. Mae'r prosiect hefyd yn ein helpu ni i gysylltu gwyddoniaeth a ffydd, ac i fawrygu Duw yn ei greadigaeth. Rydan ni'n edrych ymlaen at ein sesiwn nesaf cyn y Nadolig!

Am fwy o wybodaeth, ewch i: <https://xplorescience.co.uk/news/xplore-goes-church-first/>

*Siwan Jones
Penycae*



MENTER IEUENCTID CRISTNOGOL SIR GÂR (MIC) Gan gynnwys Prosiect y Porth

Gweithiwr llawn amser, ar gyfer plant, ieuencid, teuluoedd a'r gymuned, sy'n gweithio gyda chapeli ac ysgolion Sul trwy Sir Gâr.

Tymor: 3 blynedd. Gellir ymestyn y cyfnod am 3 blynedd arall trwy gytundeb, ac yn ddibynnol ar gyllid digonol.

Cyflog: Graddfa £24,000–£26,000, ynghyd â Chynllun Pensiwn.

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â:

Peter Harries: 01558 823075;

e-bost p.harries835@btinternet.com

- Mae'r swydd yn seiliedig ar ddatgeliad DBS boddhaol a dau eirda.
- Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.
- Cewch wybodaeth am waith MIC ar ein gwefan; micsirgar.org
- Gwybodaeth am broiect y Porth ar capelseion.uk/y-porth

Dyddiad cau: Hydref 31ain, 2021

S4C

Sul, 17 Hydref, am 7.30yb – Dechrau Canu Dechrau Canmol
Mae'n dymor diolchgarwch, a'r wythnos hon bydd Nia yn Llandysul yn clywed am waith arbennig yr elusen Tir Dewi. Cawn fwynhau dehongliad Eirlys Myfanwy o eiriau ysbrydoledig Eben Fardd, 'O fy Iesu bendigedig'.
Daw'r emynau o Gapel Moriah, Llanelli, a Chapel Seion, Dre-fach. Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i'w gael o ddilyn y ddolen hon: <https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/>

BBC radio cymru

Sul, 17 Hydref – Oedfa Radio Cymru, 12.00yp
Yng ngofal Llewelyn Moules-Jones, Bro Dwynwen, Môn.

Sul, 17 Hydref – Caniadaeth y Cysegr, 7.30yb a 4.30yp
Yr wythnos hon, yn yr olaf mewn cyfres o ddwy raglen, bydd Elen Ifan yn bwrrw golwg ar hanes enwau rhai o'n hemyn-donau.

Yr Ysbryd Glân a'r Eglwys

Fel ysgogiad i feddwl am natur ein heglwys yn y cyfnod hwn o gynnull eto ac ailadeiladu, rhoddir yma'r penodau hynny o lyfr R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân* (1972), sy'n sôn am waith yr Ysbryd yn yr Eglwys. Bydd chwech ohonynt yn y gyfres.

Rhif 5 – Ysbryd Gras a Gweddïau

Proffwydoliaeth brydferth iawn yw honno gan Sechareia, “A thywalltaf ar dŷ Dafydd, ac ar breswylwyr Jerwsalem, ysbryd gras a gweddïau ...” (Sechareia 12:10). Yn ddigon priodol, gwelodd esbonwyr Cristnogol gyfeiriad yma at waith yr Ysbryd Glân yn yr Eglwys. Un o swyddi amlwg yr Ysbryd Glân ym mywyd cyhoeddus eglwys ac ym mywyd preifat credinwyr yw eu cynorthwyo i weddio.

Nid dawn neilltuol a roddwyd i rai yw dawn gweddï. Ffordd ydyw yn hytrach i bawb o blant Duwymarfer grasusau fel ffydd, gobaith, cariad ac edifeirwch mewn deisyfiadau ac ymbiliau i Dduw.

Sut mae'r Ysbryd Glân yn ein cynorthwyo yn y gwaith hwn?

Yn gyntaf, mae'n ein sicrhau o'n rhyddid i weddio. Derbyniadom “Ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad” (Rhufeiniaid 8:15). Rhoddodd inni safle plant gerbron eu Tad. A chan ein bod trwy fabwysiad yn feibion, rhaid sicrhau ein bod yn siarad ac ymddwyn fel meibion. Fel hyn y gosododd Walter Cradoc y peth:

Mae plentyn hoffus yn naturiol hy ar ei dad a byddai hyfdra felly'n beth anghwrtais iawn mewn dieithryn. Ond fe wnaiff plentyn eistedd ar arffed ei fam a chipio rhywbeth allan o'i llaw. Fe gewch rhai i siarad am ffurfiau addoli, a deddfu sut mae gweddïo, a sefyll hanner awr yn cyffesu pechodau, a dod at Dduw felly o gam i gam. Ond mae'r sawl sy'n caru Duw â hoffter sanctaidd yn gwybod y gall neidio i arffed ei Dad pryd y mynno a syrthio i'w freichiau a gofyn am unrhyw beth heb ffalio a gwenieithio. (*Divine Drops Distilled*, [1650], 49)

Sylwer, nid gweddïo ar Dduw am ein bod yn meddu'r *wybodaeth* ei fod yn Dad. Ond gweddïo yn rhinwedd y mabwysiad a enillodd Crist inni. Dyna sydd gan Cradoc wrth ddweud, “Dylem lafurio am ysbryd cyflawn mabolaeth. Beth yw hwnnw? Dyna yw hwnnw, na bo dim yn fy nghalon at Dduw ond cariad pur, oherwydd yn ei ymddygiad Ef tuag ataf fi nid oes dim ond cariad, a gras, a newyddion da.” (*Glad Tidings*, 41)

Yn ail, chwelir y swildod a'r dieithrwrch hwnnw sy'n gweddu i gaethwas o flaen teyrn, ond sy'n gwbl anaddas mewn plentyn yn cyfarch Tad: “Am hynny, frodyr, gan fod i ni ryddid (neu, hyfdra) i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu ... nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd” (Hebreaid 10:19,22). “Am hynny, awn yn hyderus at orseddfainc y gras, fel y derbyniom drugaredd” (Hebreaid 4:16). Gwir yw nad yw Cristnogion bob amser yn teimlo'n hyderus drwy weddio. Daw ofnau a themtasiynau – a hyd yn oed brysurddeb

cyffredin – i'n maglu. Er hynny, awn yn hyderus!

Yn drydydd, y mae'r Ysbryd yn “cynorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddiom, megis y dylem” (Rhufeiniaid 8:26). Er bod llawer gwendid yn gallu llesteirio ein gweddïo, y mwyaf difrifol yw fod cynnwys ein gweddïau mor amhriodol. Dymuniad dyfnaf plentyn Duw yw gweld gogoneddu ei Dad nefol. Dyna pam y mae Gweddï'r Arglwydd yn dechrau gyda “Sancteiddier dy enw. Gwneler dyewyllys”. A dyna'n union gynnwys gweddï'r Arglwydd Iesu yng Ngethsemane, “er hynny, nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler” (Luc 22:42). Trychineb ein gweddïau ni yw ein bod yn ymddwyn fel dieithriaid ac nid plant. Ein hunanoldeb ni sydd wrth y llyw a cheisiwn blygu Duw i'n hewyllys ni. Dim ond yr Ysbryd Glân sy'n gallu ein cynorthwyo ni i weddio fel plant. Fel y gosododd John Wesley'r gwirionedd:

Yr hyn a olygaf wrth dystiolaeth yr Ysbryd yw argraff fewnol ar yr enaid trwy ba un y mae Ysbryd Duw'n tystiolaethu'n uniongyrchol i'm hysbryd i fy mod yn blentyn Duw; fod Iesu Grist wedi fy ngharu a'i ddodi'i hun dros of fi, er mwyn dileu fy holl bechodau, a'm bod i, hyd yn oed myfi, wedi fy nghymodi â Duw. (*Sermons*, x)

Faint o bobl, ymlith y rhai sy'n cwyno na allant weddio, sy'n fyddar i dystiolaeth yr Ysbryd Glân? Faint ohonynt sydd wedi cael y syniad fod Duw'n rhyw fath o Dad Cyffredinol, heb iddo fod yn Dad personol iddynt hwy?

Yr Ysbryd Glân sy'n ein sicrhau fod inni dderbyniad gan y Tad. Efe hefyd sydd yn cadw ein golygon ar yr Arglwydd Iesu. Trwyddo Ef y mae inni ddyfodfa at y Tad. Efe yw cyfyngwr ein gweddïau, a dyna pam yr ydym yn offrymu pob gweddï “trwy Iesu Grist ein Harglwydd”. Efe yw'r “Eiriolwr gyda'r Tad” (1 Ioan 2:1). Efe a gysegrodd y ffordd newydd a bywiol ar ein cyfer (Hebreaid 10:20).

Yn bedwerydd, “y mae'r Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni ag ocheneidiau anhraethadwy” (Rhufeiniaid 8:26). Pwy'n wir sy'n deilwng i gyfarch Duw ond Duw ei hun? Mae'n geiriau ni'n mynd yn deilchion wrth inni geisio mynegi'r hyn sydd ynom. Ond ein cysur yw fod yr Ysbryd “yn erfyn tros y saint”. Ac nid rhyw gyfriniaeth niwlog yw hon y gellir ei hesbonio fel dyn yn siarad â'i ddyfnderoedd ei hun. Am y Duw hollalluog sy'n cyfarch dyn ac yn gwahodd ei gymdeithas yr ydym yn sôn. A'r Duw hwn sy'n “cynorthwyo ein gwendid ni”, yn rhoi cryfder i'n gweddïau – ac yn gwrandao! A hwn hefyd sy'n dwyn ei amcanion grasol i ben yn ddi-feth. “Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn” (Rhufeiniaid 8:28–39). Pwy a all beidio â gweddïo o gofio hyn? Y Duw sydd ynom yw'r Duw sydd drosom, a'r Duw sydd ynom sy'n ein gwarchod yng nghaer ei gariad rhag pob gelym.

Beth sy'n dilyn? “Gweddïwch yn ddi-baid” (1 Thesalonïaid 5:17), “dyfalbarhau mewn gweddï” (Rhufeiniaid 12:12), “ymroi i ympryd a gweddï” (1 Corinthiaid 7:5), “gweddïo bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd” (Effesiaid 6:18), “Parhewch mewn gweddï, gan wylid ynddi gyda diolchgarwch” (Colosïaid 4:2). A chyn ddifrifoled â'r un rhybudd yw hwn gan Pedr: “Eithr diwedd pob peth a nesaodd: am hynny byddwch sobr, a gwyliadwris i weddiâu” (1 Pedr 4:7).

Yr ydym wedi talu'n ddrud yn ein heglwys am esgeuluso'r rhybuddion hyn. Aeth ein gweddïo cyhoeddus ar y Sul yn ddieneiniad. Bu farw'r Cyfarfod Gweddï mewn llu o eglwys. Gan ddyffeo addewidion diamwys y Beibl, gwnaeth miloedd esgus o'u gwendid a'u swildod i gael osgoi bendith “Ysbryd gras a gweddïau”. Ac eto, mae'r Ysbryd wrth ein penelin: “Os chwychi gan hynny, y rhai ydych yn ddrwg, a fedrwrch roi rhoddion da i'ch plant chwi; pa faint mwy y rhydd eich Tad o'r nef yr Ysbryd Glân i'r rhai a ofynnno ganddo?” (Luc 11:13).

Darlleniadau:

Mathew 6:5–15; Rhufeiniaid 8:24–8; Hebreaid 4:14–16; Luc 11:5–13; Luc 18:1–14.

Llyfrau:

Nid yw hanes duwioldeb Cymru wedi'i ysgrifennu eto. Mae hynny'n beth rhyfedd iawn o gofio'r swm aruthrol o ddefnyddiau sydd ar gael. Ond gyda'r dirywiad brawychus mewn disgyblaeth ddefosiynol yn ein heglwys nid yw'n anesboniadwy.

I bwrpas cryfhau a chyfoethogi myfyrdod a gweddï, ceir llawer cymorth yn rhai o'r hen glasuron fel *Patrwm y Gwir Gristion*, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, a *Rheol Buchedd Sanctaidd*. Ceir gweddïau sy'n debygol o fod yn fwy at ddant y Cristion cyfoes yng nghyfrifol *Pregethau*, Emrys ap Iwan (gan ddarllen hefyd *pregeth* (iv)). Mae'r casgliadau *pregethau* a gyhoeddwyd yn y gariad ddiwethaf yn dew o baragraffau cynorthwyol i ysbryd gweddï a gellid casgliad cyfoethog o ddyfyniadau o lyfrau'r ddeunawfed ganrif. O dan lwch llawer llyfrgell ceir ambell gyfrol bach fywiog ar weddi fel *Hedyn Mwstard* John Hughes, Llangadog (cyhoeddwyd Llandeilo, 1877), a chyfrolau Azariah Shadrach gyda'u teitlau gogleisiol. Mae adran Griffith Jones, Llanddowror, ar weddi yn ei *Hyfforddiad*, “Y Bedwaredd Ran”, yn addysgiadol. Ac am yr athrawiaeth gw. Buchanan (250–68). Yr oedd Dr Owen Evans â'r ddawn ysgrifennu'n ddefosiynol yn gref ynddo fel yn ei *Oriau Gyda'r Iesu* yn ddwy gyfrol. Ond nid oes guro ar y Beibl ei hun i ysgogi gweddï – a gall cyfeiriadur Beiblaidd fel *Porfeydd Gwelltog* (Caerdydd 1915) o waith William Lewis fod yn gynorthwyol – heb sôn am gyfrolau T. Glyn Thomas, Wrecsam, *Ar Ddechrau'r Dydd* ac *Ar Derfyn Dydd* (Cyngor Eglwys Cymru). Neu gellir troi at astudiaethau cyfoes o'r ddisgyblaeth ddefosiynol fel llyfr hyfryd Bonhoeffer, *Life Together* (1954), neu hyd yn oed *bregethau* Barth yng ngharchar Basel, *Call for God*. A gwell lawer nag ymboeni â llyfrau yw bwrw ati i weddio. Does dim angen cwrs addysg i weddio ar Dad!

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Sefydli Undeb yr Annibynwyr 1871

Bu cryn drafod a dadlau am flynyddoedd yn y 19eg ganrif am y priodoldeb o sefydlu Undeb fyddai'n tynnu eglwysi Annibynnol Cymraeg at ei gilydd. Ambell dro roedd y gwrthwynebiad yn chwyrn yn erbyn presbytareiddio'r Annibynwyr, er hynny, yr oedd awydd ymhlith rhai arweinyddion a gweinidogion i gael Undeb Cymraeg.

Undeb cynulleidfaol

Roedd Undeb Cynulleidfaol Lloegr a Chymru eisoes wedi ei sefydlu ac ym mis Hydref 1871 cynhaliwyd eu cyfarfod blynyddol yn Abertawe. Yno, cyfarfu'r Cymry yng Nghapel Seion ar 11 Hydref a llawenydd mawr i'r trefnwyr oedd gweld torf o 350 wedi ymgynnull. Darllenwyd dau bapur, y cyntaf gan S.R. ar 'Adgofion am ffurfiad yr Undeb Cynulleidfaol Seisonig' a'r llall gan Joshua Lewis (Henllan) ar 'Awgrymau er ffurfio Undeb Cymreig'. Yn dilyn yr anerchiadau cynigiodd Thomas Rees, Abertawe, 'Fod y gynnadledd hon yn cymeradwyo yr amcan o sefydlu math o Undeb Cynulleidfaol.' Wedi trafodaeth cynigiodd Thomas Johns ac eiliodd Ap Vychan, 'Fod pwyllgor i gael ei neillduo i gymeryd i ystyriaeth gynllun o gyfansoddiad yr Undeb, i'w osod gerbon cyfarfod nos dranoeth.' Pasiwyd hwn

ac enwyd rhyw ddau ddwsin i baratoi cynllun.

Pleidlais o blaid

Y noson drannoeth, roedd cyfarfod Cymraeg wedi ei drefnu o dan nawdd yr Undeb Cynulleidfaol yng nghapel Ebeneser, Abertawe. Wedi anerchiad gan William Morgan, Caerfyrddin ac Ap Vychan galwodd llywydd y cyfarfod, sef Henry Richards, ar John Thomas i gynnig y cynllun a baratowyd gan y pwyllgor. Ar ôl iddo bwysleisio na fwriadai'r cynllun greu corff i oruwchlywodraethu dros yr eglwysi, gofynnodd y cwestiwn beth fyddai ei amcan. Dyma'i ateb:



John Thomas –
Lerpwl

Ei unig amcan, fel y deallaf ef, yw rhoddi cyfle i weinidogion ac aelodau i gydyfarfod â'i gilydd i ddarllen papyrâu ar faterion pwysig cysylltiedig â theyrnas Crist, ac i rydd-ymddyddan arnynt; fel ag i gyffroi meddwl puraidd y naill y llall i weithgarwch ychwanegol; ac ar achlysur neillduol i ddwyn tysiolaeth unol yn nglŷn âg

achosion cyhoeddus yn wladol a chrefyddol.

Yna, cynigiodd fabwysiadu cyfansoddiad yr Undeb. Pan roddwyd y cynnig i bleidlais, dim ond un a wrthwynebodd.

Y sefydlu

Ac felly ar nos Iau, 12 Hydref 1871, yng nghapel Ebeneser, Abertawe, Sefydlwyd Undeb yr Annibynwyr. Roedd y cyfansoddiad a fabwysiadwyd y noson honno yn syml ac fe roddwyd y teitl 'Undeb yr Annibynwyr Cymreig' ar y sefydliad newydd. Dyma'r hyn ddywedir yn ail gymal y cyfansoddiad:

Mai amcan yr Undeb yw meithrin cydnabyddiaeth chwanegol rhwng y gweinidogion ac aelodau yr eglwysi; rhoddi cyfle i ymgyngori yn nghylch achosion cyhoeddus yr enwad; ac anog y naill a'r llall i gyd-weithrediad gyda'r pethau a berthynant i lwyddiant teyrnas Crist.

Lloffwyd yr wybodaeth uchod yn ei gyfanrwydd o gyfrol y Parch. Dr R Tudur Jones, Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1872–1972.

EGLWYSI CYNULLEIDFAOL

SEION, ABERYSTWYTH A BETHEL, TAL-Y-BONT

CYNHELIR CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU

MR GWILYM TUDUR,

BA (Aberystwyth), BA MPhil (Oxon.)

YN WEINIDOG I'R ARGLWYDD IESU GRIST

DDYDD SADWRN, 30 HYDREF, AM 2.00 P.M.

YN SEION, STRYD Y POPTY, ABERYSTWYTH

Estynnir croeso cynnes i chwi ymuno â chyfeillion Seion a Bethel ar yr achlysur hwn.

Darperir lluniaeth yn Llety Parc, Llanbadarn wedi'r oedfa.

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 bydd yn rhaid cofrestru eich bwriad i fynychu'r oedfa.

Gwerthfawrogi'r petaech yn gwneud hyn, rhwng 12–23 Hydref, trwy gysylltu â:

Rhiannon Davies

E: Cemaes@btinternet.com

FF: 01970 615409

Duw - ein craig a'n cadernid

Gall bywyd y Cristion fod yn anodd ac mae'n bosibl fod rhai ohonom yn teimlo hyn i'r byw. Gall bywyd fod yn anodd pan rydym yn sâl neu pan welwn aelod o'n teulu'n dioddef. Gall bywyd fod yn heriol pan rydym yn teimlo'n unig ac yn isel ein hysbryd oherwydd ein hamgylchiadau cymhleth. Gall bywyd fod yn galed pan nad ydym yn sicr o ddyfodol ein swyddi a phan gawn ein llenwi â phryder wrth feddwl am effaith y pandemig ar addysg ein plant a'n hwyron. Pan mae bywyd fel hyn, mae'n anodd gwybod at bwy i droi am gynhaliadaeth a chysur.

Mae'r Beibl, er hynny, yn ein hannog ni fel Cristnogion i droi at Dduw pan mae bywyd yn heriol. Yn Salm 18, mae'r Brenin Dafydd yn troi at Dduw am gymorth yn ystod cyfnod arbennig o anodd yn ei fywyd. Wrth agor y Salm, mae Dafydd yn disgrifio Duw trwy ddweud hyn:



'Caraf di, O Arglwydd, fy nghryfder. Yr Arglwydd yw fy nghraig, fy nghadernid a'm gwaredydd; fy Nuw yw fy nghraig lle llochesaf, fy nharian, fy amddiffynfa gadarn a'm caer.'

(Salm 18:1–2)

Pethau diogel

Yr hyn a gawn yn yr adnodau hyn yw rhestr hir o enwau ac ansoddeiriau sy'n

parhad ar dudalen 7

Barn Annibynnol

Blwch Pandora

Pandora! Cyn yr wythnos hon, chwedlau Groeg neu freichled ddruddfawr oedd yn dod i'r meddwl i mi. Ond yn ystod y dyddiau diwethaf, mae'r enw Pandora wedi mynd â ni ar ein hunion i fyd cudd a thywyll. Byd lle mae'r cyfoethog a'r grymus yn gweithredu yn gellweirus er mwyn cynyddu cyfoeth, un ai trwy dwyll ariannol neu drwy osgoi rheoliadau treth arferol. Byd hefyd lle mae'r cyfoethog a'r grymus yn ceisio cael dylanwad gwleidyddol drwy gyfraniadau hael. Byddai'r mwyafrif ohonynt yn dadlau nad ydynt wedi torri'r un gyfraith a bod eu trafodion ariannol i gyd o fewn y rheoliadau. Os felly, mae'n amlwg fod y rheoliadau hynny'n aneffeithiol ac yn anfoesol, yn enwedig os yw'n golygu mai'r cyfoethog a'r grymus ydy'r unig rai sy'n gallu cael unrhyw fudd o'r sefyllfa.

Newyddiadura

Er bod sïon wedi bod ers tro am y byd ariannol tywyll yma; doedd dim prawf cadarn. Ond diolch i dros 600 o newyddiadurwyr sydd wedi bod yn ymchwilio ers blynyddoedd, llwyddwyd i gael darlun mwy eglur o'r hyn sy'n mynd yn ei flaen gyda dros 12 miliwn o ddogfennau yn cael eu rhyddhau sy'n rhannu gwybodaeth am drafodion arweinwyr byd, teuluoedd brenhinol, selebs y byd cerddorol a chwaraeon a phobl fusnes.

Gobaith

Ac fel yn chwedl Pandora, unwaith mae'r boc hwnnw yn cael ei agor – yna mae'n amhosib rhoi popeth yn ei ôl. Yn y chwedl, rhybuddiwyd Pandora i beidio ag agor y boc, er bod gorriad yno iddi hi. Dyna demtasiwn! A bu'r chwilyfrydedd yn ormod iddi. Roedd yn gobeithio gallu sbecian i mewn a chau'r boc ar ei union, ond roedd yn amhosib. Roedd holl ddrygioni'r byd yn y boc, ac er i Pandora gau'r boc cyn gynted ag y gallai, roedd yn rhy hwyr; allan daeth dioddefaint, casineb, rhyfel a chwant. Yr unig beth oedd ar ôl yn y boc oedd gobaith.

Mae'n anodd dod o hyd i obaith ym mhapurau Pandora 2021, ac mewn un ystyr nid ydynt yn ein synnu; un nodwedd o'r cyfoethog a'r grymus ydy'r angen i ddal gafael yn y grym a'r cyfoeth hwnnw. Mae'r papurau ond yn cadarnhau'r hyn a wyddem yn barod. Ond mae cael y ffeithiau a chael cadarnhad o ba mor bell mae'r llygredd yn ymestyn yn syfrdanol. Ond mae un peth yn bendant, mae codi cwr y llen ar y byd cudd yma yn golygu y dylem fod yn llawer mwy parod fel cymdeithas i'w herio a sicrhau nad oes lle i guddio bellach.

Goleuni

Fel Cristnogion credwn mewn goleuni sy'n drech na'r tywyllwch; Goleuni daioni Crist. Goleuni sy'n goleuo'r cysgodion a phob cornel dywyll. Goleuni sy'n dangos fod gobaith i'w gael ym mhob sefyllfa. Wrth wrando ar BBC World Service noson o'r blaen, clywais gyfweiliad gyda Simon Gronowski fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 ar 12 Hydref. Mae stori Gronowski yn rhyfeddol a gwrthiol; ewch i ddarllen amdano. Yn 11 oed ag yntau a'i deulu ar drên oedd ar y ffordd o Wlad Belg i Auschwitz, gwthiodd ei fam ef oddi ar y trên pan lwyddodd y 'Belgian Resistance' i stopio'r trên er mwyn ceisio achub cymaint ag y gallent. Llofruddiwyd ei fam a'i chwaer yn y siambrau nwy ond llwyddodd Simon i oroesi'r rhyfel a hyfforddi yn gyfreithiwr. Cyfansoddodd y cyfansoddwr Seisnig Howard Moody opera dan y teitl *Push* am hanes Gronowski.



Simon Gronowski

Maddeuant

Yn 2012, cyfarfu Simon Gronowski â Koenraad Tinel oedd yn frawd iau i un o filwyr y SS a roddodd Simon a'i deulu ar y trên. Daethant yn gyfeillion a gyda'i gilydd maent wedi siarad am rym maddeuant a dealltwriaeth er mwyn ail-greu byd toredig. Mae'n anodd dod o hyd i obaith yn erchyllterau'r Ail Ryfel Byd, ond mae Gronowski yn benderfynol fod gobaith yn bodoli yn y sefyllfaoedd mwyaf erchyll. Dyma un dyfyniad o'i lythyr 'Auschwitz a maddeuant' a gyhoeddodd yn Ffrangeg yn 2013:

Ni ddylai pobol fod yn rhanedig ond dylent gael eu dwyn yn agosach at ei gilydd, rhaid i un fynd at y llall er mwyn datblygu a chyd-dyfu er mwyn byd gwell o heddwch a pharch. Dyma neges o obaith a llawenydd. Nid wyf fi, a gollodd fy nheulu drwy gasineb troseddol, yn casau. Nid wyf yn casau. Er gwaethaf digwyddiadau trasig ddoe a heddiw, oherwydd hyd yn oed heddiw mae pobol yn dioddef yn y byd, rwy'n cadw fy ffydd yn y dyfodol am fy mod yn credu mewn daioni dynol.

Mererid Mair

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Duw - ein craig a'n cadernid – parhad

disgrifio'n berffaith sut un yw Duw: 'fy nghryfder', 'fy nghraig', 'fy nghadernid', 'fy ngwaredydd', 'fy nharian', 'fy amddiffynfa gadarn', 'fy nghaer'. Beth sy'n gyffredin rhwng y disgrifiadau hyn? Wel, maent i gyd yn eiriau sy'n disgrifio pethau diogel a chadarn – pethau y'u defnyddir i amddiffyn a gwarchod pobl. Trwy ddefnyddio'r disgrifiadau hyn, mae Dafydd eisiau i'w ddarllenwyr wybod fod Duw yn cadw ei bobl yn ddiogel. Er ei sefyllfa drychinebus, mae Dafydd yn gwybod yn sicr na fydd Duw yn ei adael.

Craig ddisyfl

Yn yr un modd heddiw, pan mae bywyd yn galed, gallwn droi at Dduw oherwydd mai Ef yw'r craig a'r amddiffynfa sy'n ein cadw ni'n ddiogel. Beth bynnag y byddwn yn ei wynebu yn ystod ein bywydau fel Cristnogion – boed salwch, neu siom, neu brofedigaeth, neu unrhyw anhawster arall – gallwn wybod ein bod ni'n ddiogel gyda Duw oherwydd ein ffydd yn Iesu. Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn wynebu pethau anodd, ond mae yn golygu y bydd Duw gyda ni beth bynnag a ddaw! Yn wir, gallwn ganu'r geiriau hyn yn hyderus gyda'r Diwygiwr Protestannaidd, Martin Luther:

*Ein nerth a'n cadarn dŵr yw Duw,
ein tarian a'n harfogaeth;
o ing a thrallod o bob rhyw
rhydd gyflawn waredigaeth.
Archelyn dyn a Duw
llawn o gynddaredd yw,
ei lid a'i ddichell gref
yw ei arfogaeth ef;
digymar yw'r anturiaeth.*

*Ni ellir dim o allu dyn:
mewn siomiant blin mae'n diffodd;
ond drosom ni mae'r addas Un,
a Duw ei hun a'i trefnodd.
'Pwy yw?' medd calon drist:
ein Ceidwad Iesu Grist,
Tywysog lluoedd nef,
ac nid oes Duw ond ef;
y maes erioed ni chollodd.*

Martin Luther (1483–1546)

Gwilym Tudur

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

LLWYDDIANT

Marielle: o forwyn i fwyty



Marielle yn derbyn hyfforddiant yn yr INTH

datgan diddordeb i'w gwneud hi'n rheolwr y bwyty wedi iddi ddod yn hollol hyddysg yn y gwaith ac wedi iddi dderbyn hyfforddiant llawn.

Dyma enghraifft o rywun yn gwneud yn fawr o'r cyfle a gafodd er mwyn gwella ei bywyd. Llongyfarchiadau Marielle!

Roedd Marielle yn arfer gweithio fel morwyn i deulu yn Antananarivo. Fe gafodd hi problemau gyda'r teulu ac felly, fe'i gosodwyd hi yn y lloches i ferched, Akany Avoko Faravohitra, yn 2017. Mae hi'n ferch ardderchog o ran ei hymddygiad, ac yn un sy'n medru dilyn rheolau'n dda a dysgu'n gyflym, mi oedd hi am gymryd cwrs coginio.

Dilynodd Marielle gwrs arlwyyo yn Antananarivo (La Restauration) ac o'r fan honno, cafodd ei dewis i ddilyn cwrs hyfforddi i fod yn weinyddes yn y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Twristiaeth a Lletygarwch (INTH) mewn cydweithrediad â Ffederasiwn Perchnogion Gwestai a Bwytai Madagascar. Mae'n brentisiaeth ddwy flynedd sy'n cyfuno astudiaethau yn yr ystafell ddothbarth a lleoliadau gwaith (mewn gwstai a bwytai â seren ym Madagascar). Yn ystod ei lleoliadau, sylwodd y busnesau ar ei sgiliau hi. Derbyniodd Marielle sawl cynnig am swydd ond yn y pen draw penderfynodd fynd i weithio mewn bwyty yn Antananarivo mewn safle â sawl bwyty (food court). Mae hi'n weinyddes ond hefyd mae ganddi ofal y til arian. Mae'r perchennog wedi



Marielle yn gweithio fel gweinyddes ac ariannydd mewn bwyty yn Antananarivo

Cynhadledd Dydd Gweddï Rithiol

O dan amgylchiadau arferol fe fyddai trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer dwy gynhadledd, y naill yn y gogledd a'r llall yn y de, i drefnu Dydd Gweddï'r Byd 2022.

Er na fydd cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb eleni oherwydd ansicrwydd Covid-19, eto, mae trefniadau ar y gweill i gynnal cynhadledd rithiol dros Zoom. Y dyddiad fydd dydd Mercher 24 Tachwedd o 10–12 dan gyfarwyddyd Gwen Wildman, ein cynrychiolydd ar y Pwyllgor Cenedlaethol. Gwahoddwn chwi yn gynnes iawn i'r gynhadledd. Os ydych yn dymuno ymuno gofynnwn yn garedig i chi gysylltu â Margaret Morgan dros e-bost ar margaretmaudmorgan@gmail.com rhwng 1–17 Tachwedd er mwyn derbyn dolen i'r gynhadledd. Bydd y ddolen yn cael ei hanfon allan erbyn dechrau'r wythnos 21 Tachwedd.

Dyddiad y Dydd Gweddï yn 2022 yw Gwener 4 Mawrth. Paratowyd y Gwasanaeth gan Chwirydd Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r thema yw 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Jeremeia 29:1–14). Gofynnwn am eich gweddïau fel paratoad i'r gwasanaethau.

Dymunir bob llwyddiant i chwi wrth drefnu ar gyfer 'Dydd Gweddï 2022: Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.'

Parchg Beti-Wyn James
Parchg Carys-Ann
Swyddogion Cyhoeddusrwydd

